TGAU

3000N10-1C

**MEHEFIN 2024 a THACHWEDD 2024**


# CYMRAEG IAITH

## Uned 1 – Llafar
## Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp)
## Sbardun 3

**Cyfarwyddiadau i Athrawon**

- Dylech ddarllen tudalennau 16–17 y fanyleb ynghyd â'r Canllawiau Asesiad Diarholiad am gyngor manwl ynglŷn â gweinyddu'r asesiad diarholiad.
- Gellir dangos y symbyliad i'r ymgeiswyr wythnos cyn iddynt gyflawni'r dasg. Bydd yn eu cynorthwyo i feddwl am syniadau am y pwnc dan sylw ond gallant hefyd gyfeirio at faterion perthnasol eraill na chyfeirir atynt yn y symbyliad.
- Dylai'r athro/athrawes gasglu'r symbyliad ar ddiwedd pob cyfnod paratoi.
- Caniateir i ymgeiswyr ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau neu wrando ar y newyddion.
- Dylai ymgeiswyr fynegi eu barn am y pwnc gydag aelodau eraill y grŵp gan roi rhesymau dros eu barn.
- Gall yr ymgeiswyr sôn am brofiadau personol neu brofiadau eraill os ydynt yn berthnasol i'r drafodaeth.
- **Ni ddylid caniatáu sgriptio'r drafodaeth** – disgwylir trafodaeth naturiol.
- Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio **nodiadau bras yn unig** gyda'r sbardun pan fyddant yn cyflawni'r dasg. **Bydd angen cyflwyno'r nodiadau yma i CBAC gyda'r recordiad.**
- Dylai'r drafodaeth gymryd tua 10 munud.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.
CJ/JS*(S24-3000N10-1C)



# Yma o Hyd







https://www.youtube.com/watch?v=43Fag8ZQcz4











Mae'n bwysig cofio digwyddiadau'r gorffennol. Rydyn ni'n gallu dysgu cymaint o'n hanes.




S4C





Mae cofio ein hanes weithiau'n golygu dal dig. Rhaid symud ymlaen! Hen hanes ydy o!



Defaid...bara brith...cennin a chawl... Rhaid chwalu'r stereoteipiau a dangos ein Cymru fodern, fywiog

**CYMRU FYW**

"Mae'n drueni meddwl bod ein plant a phobl ifanc yn gwybod popeth am 1066, ond ddim yn gwybod am 1282."

'Diffyg gwybodaeth' i ddysgu hanes Cymru mewn ysgolion – BBC Cymru Fyw

Mae caru eich gwlad yn iawn yn ei le ond mae cenedlaetholdeb yn gallu bod yn beryglus.

Beth yw eich barn chi?

**MAE CYMRU'N WLAD I FOD YN FALCH OHONI**

Gallwch drafod rhai o'r pwyntiau hyn:

- Mae'n bwysig cofio a dathlu ein hanes er mwyn cael gwell dyfodol i Gymru.
- Cenedl heb iaith, cenedl heb galon: Nid yw Cymru'n Gymru heb y Gymraeg.
- Mae angen i Gymru fod yn wlad annibynnol.

Cofiwch y medrwch gyfeirio at bethau perthnasol eraill nad ydynt ar y daflen hon hefyd.



Cyfrifiad 2011: 19% o Gymry'n gallu siarad Cymraeg
Cyfrifiad 2021: 17.9% o Gymry'n gallu siarad Cymraeg

Ddylai pobl ddim cael newid enwau llefydd a thai Cymru. Rhaid eu gwarchod!

**CYMRU FYW**

Cyfrifiad 2021: 10,000 yn fwy o ddisgyblion yn cael addysg Gymraeg ond cwymp sylweddol yn nifer y siaradwyr.

Cymraeg: 'Paradocs' y Cyfrifiad yn dangos 'darlun cymhleth' – BBC Cymru Fyw

**CYMRU FYW**

Gwersi Cymraeg am ddim i rai rhwng 16 a 25 oed i helpu i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gwersi am ddim i helpu cyrraedd targed miliwn o siaradwyr – BBC Cymru Fyw

Eryri neu Snowdonia?
Porth Oer neu Whistling Sands?
Coed Llugwy neu Walkers' Wood?

**CYMRU FYW**

'Cynnydd sylweddol' yn nifer y dysgwyr Cymraeg.

'Cynnydd sylweddol' yn nifer y dysgwyr Cymraeg – BBC Cymru Fyw

Mae'n rhaid derbyn newidiadau yn y Gymraeg er mwyn iddi fyw.

Newyddion S4C
@NewyddionS4C

'Welsh is in the top 7% of the languages of the world as far as number of speakers is concerned.'
Mae'r ffaith ddifyr hon o gyfweliad yr ieithydd David Crystal o @prifysgolbangor gydag @elisjames ar Stori'r Iaith neithiwr wedi synnu nifer.






Does dim angen tywysog ar Gymru!



Mae'n hen bryd i ni gael ein rheoli ni ein hunain!

Mae ymchwil yn dangos y byddai 24% o bobl Cymru yn pleidleisio dros annibyniaeth i Gymru. bbc.co.uk

Rydyn ni'n gryfach o lawer yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

